

# Will you still love me, tomorrow?



Ni allwn ragweld am faint y bydd eich perthynas yn para, ond gallwn eich helpu i ddefnyddio gwefannau caru yn ddiogel ar-lein.




[www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org)

# Mae defnyddio gwefannau caru ar-lein yn ffordd wych o gwrdd â phobl newydd.


Mae'n gyfleus, yn cynnig amrywiaeth eang o gariadon posibl ac yn ffordd wych o gyfathrebu wrth ddatblygu perthynas. Ac yn aml iawn mae'n arwain at berthynas hirdymor neu hyd yn oed am oes. Ond, wrth gwrs, gall y berthynas ddod i ben am sawl rheswm ... fel 'na mae hi. Ond os yw'r rhesymau yn sinistr, mae hynny'n wahanol iawn.

Hoffem eich helpu i ddiogelu eich hun rhag rhai o'r peryglon hyn, megis twyll, cam-fanteisio'n rhywiol a niwed corfforol.

**Cyn i chi fynd ar-lein nesaf i ddod o hyd i gariad, treuliwch rai munudau yn darllen ein canllawiau arbenigol.**



- Dewiswch wasanaeth caru ag enw da a pheidiwch â sgwrsio y tu allan i wasanaeth negeseuon y wefan neu'r ap nes eich bod yn hyderus bod y person yn dweud y gwir, ac y gellir ymddiried yn ei gymhelliant.
- Sicrhewch fod y person yn rhywun go iawn drwy roi ei enw, lluniau proffil neu unrhyw ymadroddion y mae'n eu defnyddio yn aml ac yna'r term 'twyll caru'/'dating scam', 'twyll rhamant'/'romance scam' neu 'catfish' yn eich peiriant chwilio. Gwnewch chwiliad delweddau i weld os mai llun o rywun arall ydyw.
- Peidiwch byth ag anfon arian na'ch manylion banc at rywun rydych wedi'i gwrdd ar-lein, ni waeth pa mor argyhoeddiadol yw eu rheswm, nac am ba mor hir rydych wedi bod yn siarad â nhw. Mae banciau fel arfer yn gwneud eu gorau i ddarganfod ac adennill eich taliad, ond nid ydynt yn gyfrifol am eich colledion os yw'r cais yn dwyllodrus.
- Dewch i adnabod y person, nid y proffil. Gofynnwch ddigon o gwestiynau a pheidiwch â rhuthro i mewn i ddim byd. Gallai hyn hefyd eich helpu i osgoi cael perthynas ffug lle y cewch eich defnyddio am ryw yn unig.
- Cofiwch fod rhai apiau caru yn defnyddio gwasanaethau lleoliad eich dyfais symudol er mwyn cael cyfatebiadau, ond gall hyn beryglu eich diogelwch personol.



- Peidiwch â gor-rannu manylion personol. Gallai datgelu eich enw llawn, dyddiad geni, cyfeiriad cartref neu weithle arwain at dwyll, dwyn manylion adnabod neu hyd yn oed anaf personol. Diogelwch enwau, manylion a lleoliadau eich plant ac aelodau o'ch teulu.
- Byddwch yn ofalus os fydd rhywun rydych yn ei gwrdd ar-lein yn dweud wrthych i beidio â sôn amdano wrth eich ffrindiau a'ch teulu. Mae twyllwyr ac ymosodwyr rhyw yn gweithio drwy ynysu eu dioddedfwyr.
- Cyn cwrdd â rhywun y gwnaethoch ei gwrdd ar-lein wyneb yn wyneb am y tro cyntaf, rhwch wybod i ffrind neu aelod o'r teulu yn ogystal â'r lleoliad. Gwnewch yn si'r bod eich ffôn symudol wedi'i droi ymlaen, ac ystyriwch drefnu i rywun eich ffonio yn ystod y dêt i roi'r cyfle i chi wneud esgus a gadael yn gynnar.
- Os byddwch yn dioddef twyll rhamant, peidiwch â theimlo cywilydd a rhwch wybod amdano ar unwaith i Action Fraud ar [www.actionfraud.police.uk](http://www.actionfraud.police.uk) neu ar **0300 123 2040** – yn ogystal â'r wefan garu y gwnaethoch gyfarfod â'r troseddwr. Rhwch wybod i'r heddlu am unrhyw ymosodiadau.

## Cyngor ar #DateSafe

Peidiwch â rhuthro i mewn i berthynas ar-lein – dewch i adnabod y person, nid y proffil a gofynnwch ddigon o gwestiynau.

Dadansoddwch eu proffil a gwnewch yn siŵr fod y person yn rhywun go iawn drwy roi ei enw, lluniau proffil neu unrhyw ymadroddion y mae'n eu defnyddio yn aml ac yna'r term 'twyll caru'/'dating scam' yn eich peiriant chwilio.

Siaradwch â'ch ffrindiau a'ch teulu am y bobl rydych wedi cwrdd â nhw. Gwyliwch rhag unrhyw un sy'n dweud wrthych am beidio â dweud wrth neb amdano neu amdani.

Dylech osgoi twyllwyr drwy beidio byth ag anfon arian na'ch manylion banc at rywun rydych wedi'i gwrdd ar-lein, ni waeth beth fo'u rheswm nac am ba mor hir rydych wedi bod yn siarad â nhw.

Defnyddiwch wasanaeth negeseuon y wefan garu nes eich bod yn hyderus bod y person yn dweud y gwir. Os byddwch yn penderfynu cwrdd â nhw wyneb yn wyneb, gwnewch yn siŵr bod y cyfarfod cyntaf mewn man cyhoeddus a rhwch wybod i rywun arall am eich lleoliad.

I gael cyngor cynhwysfawr, ymarferol a diduedd ar ddefnyddio gwefannau caru yn ddiogel, ewch i [www.getsafeonline.org/datesafe](http://www.getsafeonline.org/datesafe)

#datesafe

# Get Safe Online

Get Safe Online yw'r ffynhonnell fwyaf blaenllaw o wybodaeth a chyngor ar ddiogelwch ar-lein yn y DU, i'r cyhoedd a busnesau bach. Mae'n bartneriaeth nid er elw rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat sydd wedi'i chefnogi gan nifer o adrannau'r llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a sefydliadau blaenllaw ym maes diogelwch y rhyngwyd, bancio a manwerthu.



I gael rhagor o wybodaeth a chyngor diduedd arbenigol sy'n hawdd ei ddilyn ar ddiogelu eich hun, eich teulu, eich arian, eich dyfeisiau a'ch gweithlu, ewch i [www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org)

For everything you need to know about protecting yourself including safe first date meetings, please visit [www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org) and choose '**Protecting Yourself**' then '**Safe Online Dating**'.



This advice is brought to you by the Dating Fraud Partnership, which comprises ourselves, the City of London Police, Metropolitan Police, Victim Support, Age UK and Online Dating Association.



[www.getsafeonline.org](http://www.getsafeonline.org)

## OFFICIAL PARTNERS

